**TAFLEN WYBODAETH**

Tachwedd 2014

# Rheoli Tir Amaethyddol ar gyfer Peillwyr

FARMING connect
cyswllt FFERMIO




Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

menter a busnes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoli tir amaethyddol ar gyfer peillwyr

Mae gan wenyn a pheillwyr eraill ran hanfodol yn y gwaith o gynhyrchu bwyd ac yng nghydbwysedd yr amgylchedd - o ran bywyd planhigion ac anifeiliaid. Mae tua 1,500 yn cyflawni'r gwaith o beillio yng Nghymru gan gynnwys gwenyn mêl a nifer o fathau o gacwn, gwenyn unigol, pryfed hofran, gwenyn meirch, gloÿnnod byw, chwilod a gwyfynod. Caiff y cyfan eu herio gan ystod eang o sialensiau amgylcheddol megis dwysau'r defnydd o'r tir, colli a darnio cynefin, parasitiaid, rheibwyr ac afiechydon, rhywogaethau estron ymledol, defnyddio plaleiddiaid a newid hinsawdd.

Er mwyn helpu ein peillwyr mae angen i ni:

- Leihau'r darnio ar gynefinoedd a gwella'r cyswllt rhwng cynefinoedd yn y tirlun.
- Gynnig gwahanol fathau o gynefinoedd a mannau i nythu a magu, chwilio am fwyd a gaeafgysgu.
- Lleihau'r torri / pori ar gaeau a gwrychoedd pan fydd hynny'n bosibl; mae ar lawer o rywogaethau o bryfed sy'n peillio angen ardaloedd sy'n cael llonydd i aeafgysgu.
- Annog pobl i dyfu planhigion paill a neithdar yn ogystal â rhai sy'n fwyd i larfae.



*Pryf hofran yn Cadoxton © Wildlife Trusts Wales*

*Llun ar y clawr: Helophilus sp. © Vaughn Matthews*

# Glaswelltir

Ffermwyr a pherchnogion tir - fe allwch chi:

- Roi tir o'r neilltu ar gyfer bywyd gwyllt, gall hyn fod dros dro neu yn barhaol, po fwyaf yw'r ardal, gorau oll ar gyfer amrywiaeth y bywyd gwyllt. Gall fod yn gorneli o gaeau wedi eu ffensio i atal pori, neu stribedi nad ydynt yn cael eu torri bob blwyddyn.
- Creu a rheoli cynefinoedd llawn blodau sy'n hanfodol i'r rhywogaethau amrywiol o beillwyr oroesi. Defnyddio blodau cynhenid megis cymryd toriad o laswellt gwyrdd, hadau o gaeau blodau gwyllt cyfagos neu hadau lleol a'u chwalu ar gae wedi ei baratoi yr ydych am ei wella.
- Gyda gwndwn tymor byr, rhowch blanhigion sy'n blodeuo yn gynt a meillion ac ymestyn yr amser cyn y toriad cyntaf i'r blodau gael blodeuo. Os na allwch wneud hyn yn y cae cyfan, gwellwch stribed ar hyd yr ymyl, maint eich torrwr gwair, a'i adael heb ei dorri tan yr ail doriad o silwair.
- Peidiwch â gadael i wartheg a defaid bori yn is na 5cm a thorrwch yn llai aml i gadw amrywiaeth o ran rhywogaethau o blanhigion ar eich tir. Cylchdrowch y pori yn ystod yr haf i'r caeau gael blodeuo a chreu hadau.
- Ceisiwch adael darnau o dir gwyllt heb ei dorri nag aredig glaswellt garw, gan ei fod yn gynefin allweddol i lawer o wenyn, gloÿnnod byw a gwyfynod ac i anifeiliaid ac adar eraill i fagu a gaeafgysgu.
- Gostyngwch y mewnbwn i gaeau lle bo hynny'n bosib trwy osgoi gwrtaith artiffisial; dim ond chwalu tail buarth yn ysgafn iawn. Mae hyn yn helpu'r blodau gwyllt i dyfu tra mae gwrtaith nitrogen yn helpu'r glaswellt i dyfu.
- Os ydych yn rheoli'r cae fel cae gwair, torrwch ar ôl canol Gorffennaf, a chylchdroi toriad hwyr bob tair i bedair blynedd. Fel arall, os byddwch yn torri yng nghanol Gorffennaf, gadewch ymylon llydan heb eu torri o gwmpas rhai caeau i'r blodau gael parhau i flodeuo trwy gydol yr haf a'r hydref.



*Gweirglodd glaswellt llawn rhywogaethau amrywiol (herbrichgrass) © Davey Martyn*

# Rheoli gwrychoedd a choetir

- Rheolwch wrychoedd mewn ffyrdd sy'n galluogi planhigion gwyllt a choed gwrychoedd i gynhyrchu blodau i gynnig bwyd i wenyn a pheillwyr eraill, a gadael iddyn nhw greu ffrwythau, hadau a chnau y gall adar a mamaliaid eu defnyddio.
- Plannwch wrychoedd newydd o rywogaethau cymysg a gadewch iddynt flodeuo. Byddai gwrych da i greu porthiant gyda choed gwrychoedd yn cynnwys drain gwynion, cyll, rhosod gwyllt, rhafnwydden, drain duon, gwyddfid, celyn, crabats, helyg, ceirios gwyllt a gellyg gwyllt. Planhigion sy'n blodeuo yn gynnar iawn fel helyg, drain duon a drain gwynion mewn gwrychoedd ac ardaloedd gwyllt, glesyn y coed, dant y llew a blodyn y gwynt mewn coetir gan y bydd pryfetach yn ymddangos o fod yn gaeafgysgu ac yn chwilio am fwyd mewn tywydd cynnes heulog ar ddechrau'r flwyddyn.
- Rheolwch y gwrychoedd i gadw banciau cynnes moel ar y gwaelod ar gyfer gwenyn sy'n tyrchu, yn arbennig os ydyn nhw'n wynebu'r de. Torrwch y gwrychoedd rhwng Hydref a Chwefror. Peidiwch â thorri gwrychoedd yn flynyddol, gwnewch hynny bob dwy flynedd gan fod nifer o rywogaethau yn treulio'r gaeaf mewn hen dyfiant. Bydd hyn hefyd yn arbed costau.
- Mae hau blodau gwyllt ar hyd llinellau'r gwrychoedd neu adael ymylon tal llawn chwyn yn cynnig bwyd i beillwyr, ond cadwch beth tir moel gan ei fod yn cynnig ardaloedd pwysig i'r peillwyr greu eu cartref.



*Cardwenynen Fain (Bombus sylvarum)* © *Michael J Clarke*

# Tir âr

- Mae blodau tir âr blynyddol yn cynnig ffynhonnell o baill a neithdar hanfodol yn gynnar yn y flwyddyn. Crëwch ymylon heb gnwd sy'n cael eu trin yn flynyddol rhwng dau a chwech metr ar hyd ochr y cae yn ystod y gwanwyn a'r hydref, ar ben llechwedd ac ar gaeau sy'n wynebu'r dwyrain, gorllewin neu'r de yn ddelfrydol. Gadewch yr ymylon yma heb eu hau fel bod blodau cynhenid yn gallu tyfu - bydd hau cymysgedd yn atal tyfiant y blodau blynyddol gwyllt.
- Gadewch yr ymyl trwy'r haf, am y tymor blodeuo cyntaf o Fai i Fedi, hyd y gwanwyn canlynol, gan fod y blodau blynyddol, yn arbennig marddanhadl a phenboethiaid, hefyd yn blodeuo eto yn Chwefror a Mawrth gan gynnig ffynhonnell neithdar a phaill hanfodol wrth i'r peillwyr ymddangos ar ôl gaeafgysgu.



*Glöyn Byw Copor Bach (Small Copper Butterfly)*

# Cynefinoedd eraill

- Crëwch fanciau tywodlyd yn wynebu'r de neu ardaloedd o dir moel gan fod y rhain yn gwneud safleoedd nythu delfrydol ar gyfer peillwyr fel gwenyn unigol. Yn ddelfrydol dylent fod yn agos at gynefinoedd blodau gwyllt a chynefinoedd eraill fel gwrychoedd.
- Peidiwch â chlirio neu dorri ymylon ffosydd yn flynyddol neu cliriwch hanner y ffos un flwyddyn a'r hanner arall y flwyddyn ganlynol. Wrth glirio'r ffos dylid gadael silff fas ar hyd yr ymyl ychydig dan y dŵr i'r blodau a glaswelltau gael lle i dyfu.
- Gadewch rai tyllau mewn waliau, hen flychau nythu, llwyni, darnau moel a heb eu symud o dir ar gyfer nythu a gaeafgysgu gyda gweddillion dail a glaswellt garw. Mae ar beillwyr angen cartref yn ogystal â bwyd ac mae'r holl gynefinoedd yma yn cael eu defnyddio gan bryfed gwahanol.
- Byddwch ychydig yn llai taclus! Gadewch blanhigion fel iorwg o gwmpas buarth y fferm, adeiladau a llwybrau fel ffynhonnell paill a neithdar hanfodol yn arbennig yn hwyrach yn y flwyddyn ar ôl i'r caeau gael eu pori neu eu torri.
- Cynigiwch gynefinoedd sy'n denu bywyd gwyllt buddiol a rheibwyr cynhennid sy'n bwyta'r plâu, er enghraifft mae ymylon blodau gwyllt yn cynnig y cynefin cywir i lawer o bryfed sy'n rheoli plâu, yn ogystal â chynnig bwyd i beillwyr.

# Chwistrellu plaleiddiaid

Defnyddiwch dechnegau 'Rheoli Plâu Integredig'. Ystyriwch ddefnyddio dulliau eraill o reoli cyn meddwl am ddefnyddio plaleiddiaid (gan gynnwys hadau wedi eu trin â phlaleiddiad). Cofiwch:

- Cadwch olwg ar eich cnydau yn gyson i ddynodi unrhyw broblemau o ran pla, a gweithredu yn ôl yr angen ar sail y canlyniadau;
- Defnyddiwch drothwy pla, pan fydd hynny'n bosibl, i bennu'r angen am gamau i amddiffyn planhigion. Peidiwch â gweithredu nes bydd y trothwyon wedi eu croesi;
- Pan fydd wirioneddol angen triniaeth defnyddiwch ddulliau biolegol, ffisegol neu ddulliau eraill heb fod yn gemegol pan fydd hynny'n bosibl;
- Pan fydd raid defnyddio plaleiddiaid, defnyddiwch gynnyrch sydd mor benodol â phosibl ac yn cael y lleiaf o sgil effeithiau. Cynlluniwch i ddefnyddio cyn lleied â phosibl a dim ond yr hyn sydd arnoch ei angen.

**Os bydd arnoch angen defnyddio plaleiddiad gwnewch yn siŵr eich bod yn diogelu gwenyn a pheillwyr trwy:**

- Roi gwybod i 'Swyddogion Cyswllt Chwistrellu' Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yn eich ardal 48 awr cyn y byddwch yn bwriadu defnyddio plaleiddiad ar yr adegau o'r flwyddyn pan fydd gwenyn mewn perygl neu pryd bynnag y byddwch yn defnyddio plaleiddiad sy'n niweidio gwenyn yn benodol. Byddant yn dweud wrth wenynwyr lleol mewn pryd iddynt gymryd y camau angenrheidiol. Cofiwch ddweud wrth wenynwyr os bydd unrhyw newid yn eich cynlluniau chwistrellu.
- Beidio â defnyddio plaleiddiaid sydd wedi eu labelu fel rhai 'niweidiol', 'peryglus iawn' neu 'risg uchel' i wenyn os bydd cnydau neu chwyn wedi blodeuo'n llawn neu'n rhannol, oni bai bod hyn yn cael ei ganiatáu ar label y cynnyrch.
- Atal y chwistrell rhag chwythu dros gychod gwenyn (hyd yn oed os byddan nhw wedi cael eu cau gan y gwenynwr) neu i wrychoedd neu gaeau lle gall gwenyn fod yn chwilota am fwyd. Defnyddio offer chwistrellu sydd ddim yn gwasgaru yn eang i wella targedu'r plaleiddiad. Chwistrellwch mor agos at y ddaear â phosibl a gwirio'r chwistrell yn gyson. Mae'n fwy diogel chwistrellu pan fydd yn oer a thamp gyda gwynt cyson o 2 i 4 milltir yr awr yn chwythu oddi wrth unrhyw ardaloedd sensitif.
- Chwistrellu ar ddiwrnod oer, cymylog (dan 10°C - dyma'r tymheredd pan na fydd gwenyn a phryfed sy'n peillio yn dueddol o chwilio am fwyd).
- Gwirio os oes peillwyr yn ymweld a chofio bod mêl-gawod a gynhyrchir gan bryfed gleision yn ddeniadol i wenyn.
- Dilynwch y cyfarwyddiadau diogelu'r amgylchedd yn ofalus ar y label ac ar y Daflen Gwybodaeth Amgylcheddol a'r cyfarwyddyd.
- Chwistrellu yn hwyrach ar fin nos pan na fydd y gwenyn yn hedfan (ond cofiwch fod cacwn yn dal i chwilio am fwyd yn hwyrach na gwenyn mêl). Mae hyn hefyd yn rhoi nifer o oriau i'r plaladdwr sychu cyn i'r gwenyn gychwyn ar eu gwaith eto.

# Rhagor o wybodaeth

Mae gwella amodau ar gyfer peillwyr dros dir amaethyddol yn faes allweddol i'w weithredu, gan ddarparu mwy o rywogaethau o blanhigion sy'n blodeuo, a chynefinoedd mwy sy'n cysylltu'n well â'i gilydd. Mae Glastir yn cynnwys nifer o opsiynau sy'n gymorth i beillwyr ar dir amaethyddol megis coetir a pherllannau, gwrychoedd ac ardaloedd ymylol o gaeau.

Cysylltwch â'ch Cymdeithas Wenynwyr leol a thrafodwch gyda hwy am gadw gwenyn eich hun neu fod yn gartref i gychod gwenyn y mae gwenynwr lleol yn gofalu amdanynt, a chael mêl am eich trafferth.



*A oes angen chwistrellu? Newton Farm - Pembroke* © *Julie Bowes*

# Dolenni defnyddiol

- Cymdeithas Gwenynwyr Cymru www.wbka.com
- Y Cod Ymarfer ar gyfer Cynhyrchion Diogelu Planhigion www.pesticides.gov.uk/guidance/industries/pesticides/topics/using-pesticides/codes-of-practice/code-of-practice-for-using-plant-protection-products
- Glastir www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/glastir
- Gweithredu dros Beillwyr www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Wales-Action-Plan-for-Pollinators
- Cynllun Rheoli Plâu Integredig www.voluntaryinitiative.org.uk/ipmp
- Achub ein Gweirglodddiau Rhyfeddol www.magnificentmeadows.org.uk
- Buglife www.buglife.org.uk
- Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn www.bumblebeeconservation.org
- Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt www.wildlifetrusts.org
- Plantlife www.plantlife.org.uk
- CywainGwenyn www.cywain.com
- Cymdeithas Ryngwladol Ymchwil Gwenyn www.ibrabee.org.uk
- Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt www.7wells.co.uk

**Awdur:** Tasglu Pryfed Peillio yng Nghymru 2014

Pryfed Peillio *Cymru*
Pollinators *in Wales*

# Cysylltu

Am fwy o wybodaeth am holl wasanaethau Cyswllt Ffermio, cysylltwch â ni:

**FFÔN**
01970 636565

**E-BOST**
farmingconnect@menterabusnes.co.uk

**GWEFAN**
www.menterabusnes.co.uk/farmingconnect

Gallwch gael y newyddion diweddaraf gan Gyswllt Ffermio drwy ein cymuned ar-lein:

**FACEBOOK**
facebook.com/farmingconnect

**TWITTER**
@farmingconnect

Mae cymorth, arweiniad a hyfforddiant Cyswllt Ffermio yn cael ei ddarparu gan Menter a Busnes ar ran Llywodraeth Cymru